tafod elái

MAI 2018

Rhif 327

Pris 80c

Her Amanda

Mae Amanda Harris o Feisgyn yn gobeithio cwblhau her fawr o seiclo 1,000 o filltiroedd yn 2018. Mae Amanda eisiau cwblhau'r her er mwyn codi arian i elusen '2 Wish Upon A Star'. Dywedodd Amanda fod yr elusen "yn gwneud gwaith arbennig ac yna i roi cymorth i rieni ddod i delerau â cholli plentyn trwy gynnig cwnsela profedigaeth a chefnogaeth i deuluoedd yn syth ar ôl marwolaeth eu hanwylyd". Mae Amanda eisiau codi arian trwy seiclo ar ei ICE trike mewn nifer o ddigwyddiadau eleni. Yn cynnwys Tour de Gwent, y Carten a'r ddigwyddiad blynyddol '2 Wish On 2 Wheels'.

Mae Amanda yn byw ym Meisgyn hefo'i gŵr a dau o blant, sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Llanhari. Dwedodd Amanda "Fe fydd y digwyddiadau hyn yn her fawr i fi oherwydd mae yna lot o ddringo ar yr ICE Trike a bydd angen lot o ymarfer. Fe fydd yr ymarferion yn cael eu cynnwys yn y 1,000 o filltiroedd".

Pedair blynedd ar ôl i Amanda cael damwain wrth seiclo mae paralysis yn ei choes dde yn parhau ac mae hi dal yn diodde o symptomau o anaf llinyn cefn. Wrth gymryd rhan yn yr her hon mae Amanda yn gobeithio codi ymwybyddiaeth o anaf llinyn cefn trwy roi digon o ddiweddariadau ar ei linc Just Giving (http://www.justgiving.com/fundraisinrg/amanda-harris27).

E.T.

Eisteddfod yr Urdd 2018

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ar faes y Sioe, Llanelwedd rhwng 28 Mai – 2 Mehefin 2018. Bydd posib mwynhau gweld 15,000 o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn ystod wythnos yr Eisteddfod, mewn cystadlaethau yn amrywio o ganu, actio a dawnsio i drin gwallt a choginio. Yn ogystal â'r cystadlu, bydd gweithgareddau megis sesiynau chwaraeon, wal ddringo, sioeau i blant, ffair, cerddoriaeth fyw a dros 80 o stondinau yn cynnig gweithgareddau ac yn gwerthu nwyddau amrywiol ar y Maes. Gyda'r nos, bydd pob math o gyngherddau, sioeau a chystadlu yn arddangos talentau lleol a chenedlaethol.

Cofiwch fynd yno i fwynhau'r wledd.

PARTI PONTY 14.07.18

Y Gymraeg o Gwmpas y Gwaelod

Roedd bwyty tafarn Gwaelod y Garth yn orlawn ar gyfer noson difyr a drefnwyd gan Catrin Dafydd tuag at Apêl Radyr a Gwaelod y Garth i Eisteddfod Caerdydd 2018. Dr Dylan Foster Evans fu'n chwilota am hanesion am Gymreigrwydd ardal y Garth. Cafwyd dyfyniadau difyr o archifau'r wasg yn 19ed ganrif a dechrau'r 20ed ganrif oedd yn dangos fod llawer iawn o bobl yr ardal yn uniaith Gymraeg. Allan Cook fu'n dangos hen greiriau arwyddocaol yn hanes y fro. A chawsom gerddi gan Martin Huws a chân gan Catrin. Noson i'w chofio.

Catrin Dafydd

Dr Dylan Foster Evans

Allan Cook

Martin Huws

Gwledd o Gerddoriaeth

Trefnwyd noson arbennig yn y Tabernacl, Efail Isaf yng nghwmni teulu'r Lovell-Jones o Gaerdydd. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Apêl Pentyrch a Chreigiau Eisteddfod Caerdydd. (Rhagor tudalen 6)

Ysgol Evan James

Llongyfarchiadau i Ffion Kenny-Griffiths am ddod yn ail yn y dawnsio disgo unigol yn yr Eisteddfod Sir. Fe wnaeth y grŵp dawnsio'n wych hefyd gan ddod yn ail.

Roedd yr wythnos wyddonol yn llwyddiant ysgubol. Roedd llond ysgol o wyddonwyr gwyllt yma, yn mwynhau arbrofi'n ddyddiol.

Aeth Dosbarthiadau Jac y Jwc a Sali Mali i'r Lido i hwylio cychod. Roeddent yn gwneud arbrawf i weld pa gychod fydd yn suddo neu arnofio.

Mae'r plant yn edrych ymlaen at ymweld ag anifeiliaid y sŵ gan taw hynny yw eu thema newydd.

Cafodd Dosbarthiadau Tom Jones, Cerys Matthews ac Elin Fflur fore bendigedig ym Mharc Ynys Angharad yn chwilio am drychfilod, blodau a choed. Roedd yr haul yn gwenu ac roedd yr hufen iâ yn y caffi'n flasus iawn.

Cynhaliodd Dosbarth Branwen wasanaeth i'r rhieni i ddathlu thema y tymor sef Awyr Beirianwyr. Roedd y rhieni wrth eu boddau.

Cynhaliodd Dosbarth Culhwch ac Olwen wasanaeth dathlu'r Celfyddydau. Roedd arddangosfa wych o waith celf y tymor a phaned gyda'r rhieni.

Pob lwc i blant y Cwis Llyfrau yn y rownd cyflwyno llyfr wythnos nesaf. Mae pawb yn cael hwyl wrth ymarfer.

Roedd perfformiad da gan y tîm pêl-droed yng nghystadleuaeth yr Urdd. Ar ôl colli'r tri gêm cyntaf, gweithion nhw'n galed i ennill y tri gêm olaf! Ymdrech arbennig!

Aeth Blwyddyn 6 i Hampton Court i astudio bywyd y Tuduriaid. Mwynheuodd pawb y gweithdy a'r drysfa!

Ysgol Gwaelod y Garth

Eisteddfodau
Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfodau Ysgol, Cylch a'r Sir eleni. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd. Llongyfarchiadau i Ela Williams, Awen Gwilym Davies, Erin Jardine, Alys Webb, Ana Gwen Wigley, Elliw Rhys, Mia Owen a'r Grŵp Dawnsio Hip-Hop a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ym mis Mai. Diolch i bawb sydd wedi bod yn brysur yn eu hyfforddi.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Mrs Helen Davies ar enedigaeth ei bachgen bach, Cynan Jâms Davies.

Ymweliadau

Cafodd Blwyddyn 1 gyfle i ymweld ag Eglwys Ffynnon Taf. Roedd y Parchedig Cathy Gale yno i'n croesawu ac i ddangos yr arteffactau a welir mewn eglwysi.

Yn ystod tymor y gwanwyn, aeth nifer o ddosbarthiadau ar daith i Ganolfan Dŵr Cymru yn Rhostir Cog. Yn ystod y daith, dysgom am faint o ddŵr yr ydym yn ei ddefnyddio bob dydd a sut y gallwn arbed dŵr trwy wneud newidiadau.

Sefydliad y Merched
Bob dydd Gwener, mae plant Blwyddyn 5 yn mwynhau dysgu sgiliau newydd gyda Sefydliad y Merched, Gwaelod y Garth. Maent yn dysgu coginio, gwnio, gwau a chreu pethau amrywiol. Pan yn coginio mae pob plentyn yn gwisgo ffedog maent wedi ei arddurno eu hunain.

Cyngor Ysgol
Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau i godi arian at elusennau. Tymor diwethaf trefnodd Cyngor Ysgol Swmbathon er budd yr NSPCC. Fe arweiniodd Miss Thomas yr holl ysgol wrth ddawnsio am hanner awr yn ddi-stop! Codon ni £1400.

Ymgyrchu
Dros y tymor diwethaf rydym wedi bod yn dysgu am blastig yn y môr. Fel rhan o'r gwaith rydym wedi ysgrifennu llythyron at McDonalds yn gofyn iddynt leihau faint o blastig maen nhw'n defnyddio bob dydd! Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Leslie Griffiths AC i dynnu ei sylw hi at y broblem arswydus o blastig yn ein môr a sut gallwn wella'r sefyllfa. Mae'r Clwb Eco wrthi yn addysgu'r ysgol gyfan am sut fedrwn ni helpu'r ymgyrch hon.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Adroddiad Estyn
Yn ystod mis Chwefror fe gafodd yr ysgol ei harolygu gan ESTYN. Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi bellach ac mae'n destun balchder i holl randdeiliaid yr ysgol. Mae'r pennaeth, staff a'r llywodraethwyr yn ymfalchio'n arbennig yn y dyfyniad canlynol o'r adroddiad:
Mae'r modd y mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion yn eu Cymreictod yn rhagorol. Mae'r ethos Gymraeg a Chymreig sy'n bodoli yng nghymuned yr ysgol yn ymledu yn effeithiol iawn i'r gymuned leol. Nodwedd eithriadol o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion yn arwain ar wersi i staff arlwyo y ganolfan gydol oes i wella'u defnydd o'r Gymraeg.
Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwych i ganu mewn cyngherddau, perfformio mewn sioeau ac i gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn hyrwyddo'u defnydd o'r iaith a'u dealltwriaeth o'u diwylliant yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn datblygu gallu mynegiannol, hunan hyder a gallu'r disgyblion i weithio fel tîm yn effeithiol.
Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol yn effeithiol iawn.

Radio Cymru 2
Llongyfarchiadau mawr i Eurion John am fod yn DJ y dydd ar Radio Cymru 2. Gallwch wrando arno ar drydar - https://twitter.com/BBCRadioCymru2/status/979366968661815297

Pêl-droed
Llongyfarchiadau i dîm bêl droed yr ysgol. Daethant yn 2il yng nghystadleuaeth yr Urdd.

Aneurin Karadog
Diolch i'r Rapiwr a'r Prifardd Aneirin Karadog am berfformio i ddisgyblion yr ysgol yn ddiweddar.

Y dyn Mecanyddol.
Yn ystod y gwyliau'r Pasg, aeth rhai o ddisgyblion yr ysgol i Barc Ynys Angharad i osod rhan o'r gadwyn ar y Dyn Mecanyddol.

Eisteddfod Sir
Llongyfarchiadau i'r canlynol fydd yn cynrychioli'r ysgol a'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Brycheiniog a Maesyfed a gynhelir ar faes y Sioe, Llanelwedd 28 Mai - 2 Mehefin.
Deuawd Sara Rees-Roberts + Miley Goss. Llefaru dan 8 Nel Jenkins. Llefaru dan 12 Mali Jenkins. Unawd dan 12 Sara Rees-Roberts. Unawd gitar Rhys Theobald. Ensemble lleisiol. Ensemble offerynol Cerddorfa. Cân Actol

Ysgol Pont-Siôn-Norton

Hyfforddiant pêl-rwyd
Diolch i Mrs Price o'r Ysgol Gyfun am ddod i gynnal sesiwn hyfforddiant gyda merched blwyddyn 5 a 6. Maent yn edrych ymlaen at y sesiwn nesaf.

Cwis Llyfrau
Bu criw o'r Adran Iau yn cystadlu yn rownd actio y cwis llyfrau ym mis Ebrill. Cyflwynodd criw blwyddyn 3 a 4 y llyfr 'Na, Nel!' ac fe gyflwynodd criw blwyddyn 5 a 6 y llyfr 'Dripsyn'. Diolch i'r athrawon a wnaeth eu hyfforddi. Rydym yn aros am y canlyniad yn awr…

Pêl-droed
Da iawn i dimau pêl-droed y bechgyn a'r merched am gystadlu yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd yn ddiweddar. Cyrhaeddodd y bechgyn y rownd gyn-derfynol heb golli un gêm yn eu grŵp. Ardderchog! Diolch Mrs Cotter, Miss Brown a chriw o rieni am yr hyfforddiant!

#Siarteriaith
Diolch i griw y Cymry Cŵl am ysgrifennu at y BBC a Menter Iaith yn holi am wobrau posibl. Diolch iddynt am yr adnoddau a dderbyniwyd.

Dr Deri Tomos gyda Dr Glyn O. Phillips a Dr Rowland Wynne yng Nghinio Gŵyl Ddewi Clwb y Dwrlyn

Wyn Jones - â gwên lydan ar ei wyneb ar ddiwedd Marathon Llundain gyda Efa a Llew (tudalen 8)

Awen Penri fu'n gwenu drwy gydol Marathon Llundain ac yn dathlu gyda'r fedal (tudalen 8)

Ysgol Tonyrefail

Cynhalwyr Ifanc
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar dderbyn tystysgrifau am gyflawni prosiect am fywyd cynhalwyr ifanc. Diolch yn fawr iddynt am y gwasanaeth bendigedig ganddynt oedd wedi addysgu gweddill disgyblion yr ysgol am waith cynhalwyr ifanc.

Sioe Bypedau
Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau gwylio sioe 'Fferm Ffal Di Ral' gan Theatr Bypedau Cymru. Diolch yn fawr iddynt am ddiddanu'r plant.

Twrnament Pêl-droed
Cafwyd perfformiad ardderchog gan y tîm pêl droed yn nhwrnament yr Urdd yn ddiweddar. O'r 6 gêm a chwaraewyd fe enillwyd 4. Da iawn wir!

Eisteddfod Sir yr Urdd
Llongyfarchiadau gwresog i Evan Fletcher a ddaeth yn 1af ar yr unawd Bl 2 ac iau ac i Eva ddaeth yn 2il ar yr unawd Bl5 a 6 yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhorthcawl. Pob lwc i Evan a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed yn Llanelwedd.

Apêl y Pasg Ysbyty Felindre
Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am drefnu gwerthu wyau Pasg siocled ar gyfer apêl Ysbyty Felindre. Llwyddwyd i gasglu £325. Diolch i bawb am gefnogi unwaith eto eleni.

Gweithgareddau STEM
Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod wrthi yn brysur, gyda help Mr Holland ein gofalwr, yn adeiladu car rasio. Mae'r plant yn mwynhau yn fawr yr holl weithgareddau STEM sydd yn deillio o'r fenter ac maent yn edrych ymlaen yn awyddus i rasio'r car ar ddiwedd y tymor.

Yr Urdd

Diolch yn fawr i Ffion a Lowri Jones cyn ddisgyblion yr ysgol am ddod i siarad ag aelodau'r Urdd am ofalu am ddraenogod yn eu gerddi. Roedd y plant wedi gwirioni ar gael y cyfle i gwrdd â gafael mewn draenog go iawn!

Gorymdaith Hetiau Pasg
Roedd disgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn ynghyd a phlant Cylch Meithrin Cwm Elai wedi bod wrthi yn brysur iawn yn creu hetiau Pasg. Cafodd y rhieni wledd i'r llygaid wrth wylio'r plant yn gorymdeithio yn eu hetiau.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Noson Sgwrsio
Cynhelir y Noson Sgwrsio nesaf nos Fawrth, 29 Mai yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail am 7pm. Croeso i bawb sydd am gael sgwrs yn Gymraeg.

Parc Sglefrio Tonyrefail

Mae nifer o ddigwyddiadau codi arian yn digwydd ar hyn o bryd yn rhan o'r ymgyrch i gael parc sglefrio i'r bobl ifainc yn Nhonyrefail. Un o'r uchafbwyntiau diweddar oedd gwobrwyo Eva Cherry Burman o Ysgol Gynradd Cwm-lai. Enillodd i-pad a roddwyd gan Ensinger am gynllunio'r logo hyfryd uchod: y ddraig goch yn sglefrio oddi ar yr efail.

Gilfach Goch
Llongyfarchiadau Twm
Llongyfarchiadau i Twm Draper ar gwblhau ei brentisiaeth gyda BT a sicrhau swydd barhaol gyda'r cwmni.

Cyngor Eco
Mae'r plant wedi bod wrthi yn brysur yn ail gylchu bocsys wyau Pasg ar gyfer cystadleuaeth Rhondda Cynon Taf. Mae mynyddoedd o gardfwrdd, plastig a ffoil wedi ymddangos yn yr ysgol!

Diwrnod y Llyfr
Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Cynhaliwyd llu o weithgareddau gan gynnwys plant Blwyddyn 6 yn treulio'r diwrnod fel athrawon yn y gwahanol ddosbarthiadau.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Enfys a Celt Hughes a'r teulu yn Nant y Felin ar golli tad Enfys yn ddiweddar

Brysiwch Wella
Dymunwn wellhad buan i Ann Rees, Penywaun sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau Ann.

Gwledd o gerddoriaeth yn Y Tabernacl
Cafwyd gwledd o noson un Y Tabernacl gan deulu'r Lovell Jones o Gaerdydd Nos iau, Ebrill 5ed. Dangosodd pob aelod o'r teulu yma eu doniau cerddorol anhygoel, yn enwedig Charlie. Charlie wnaeth gyflwyno'r eitemau, mi ganodd unawd o'r Sioe Gerdd "Les Miserable" gan swyno'r gynulleidfa, heb sôn am ei gampweithiau ar y ffidil. Dyma yn wir oedd noson i'w chofio gan y teulu talentog yma gyda'r gynulleidfa ar ei thraed yn cymeradwyo ar y diwedd. Cyflwynwyd y teulu i'r gynulleidfa gan Huw Llywelyn Davies a threfnwyd y noson gan Bwyllgor Apêl Pentyrch a Chreigiau a'r elw'n mynd i Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Y TABERNACL
"Myfi Yw"
Mae'r Tabernacl yn prysur ddatblygu'n ganolfan gerdd safonol!

Yn y capel fore Sul y Blodau perfformiwyd yr Oratorio "Myfi Yw" gan Côr Caerdydd. Oratorio o Efengyl Sant Ioan yw "Myfi Yw" a gyfansoddwyd gan Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts. Cafwyd perfformiad gwefreiddiol gan y Côr a'r unawdwyr.

Cymaint oedd gwerthfawrogiad y gynulleidfa o'r perfformiad trawiadol nes iddynt gyfrannu £900 tuag at yr elusen "Housing Justice" Cymru.

Diolch o galon i Gwawr Owen a'r Côr a'r unawdwyr am gyflwyno bore mor gofiadwy i aelodau'r Tabernacl.

Merched y Tabernacl
Daeth y merched ynghyd yng Nghanolfan y Tabernacl fore Gwener Ebrill 20fed i gael sgwrs hamddenol a phaned. Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â Chanolfan Arddio Caerffili ar ddydd Iau, 10fed o Fai.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Mai
Mai 6ed Oedfa Gymun gydag aelodau Meisgyn a'r Groesfaen
Mai 13eg Sul Cymorth Cristnogol
Mai 20fed Oedfa Deuluol
Mai 27ain Y Parchedig Eirian Rees.

Ysgol Creigiau

EISTEDDFOD SIR YR URDD
Dydd Sadwrn, Mawrth 24ain, bu disgyblion yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir a gynhaliwyd yn Ysgol Glantaf. Cipiodd Elain, Dosbarth 2, y wobr gyntaf am Lefaru Unigol i ddisgyblion Blwyddyn 2 ac iau. Daeth Seren a Gwenno, Dosbarth 5, yn drydydd yn y gystadleuaeth ddeuawd Cerdd Dant. Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr Adran Saesneg yn cystadlu mewn cystadlaethau llefaru ail-iaith. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda'r Parti Llefaru i Ddysgwyr yn ennill, Hannah, Class 4, yn ennill y gystadleuaeth Llefaru Unigol i Ddysgwyr Blwyddyn 3 a 4 a Ffion, Class 6, yn ennill y gystadleuaeth Llefaru Unigol i Ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6. Llongyfarchiadau iddynt i gyd! Bydd y parti llefaru, Elain, Hannah a Ffion yn cynrychioli'r ysgol a Chaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Llanelwedd ym mis Mai.

CASGLU SBWRIEL
Penderfynodd y Pwyllgor Eco dreulio amser yn ddiweddar yn casglu sbwriel o amgylch y pentref. Cawsant eu synnu wrth weld cymaint o sbwriel oedd yn cael ei daflu o amgylch y pentref. Da iawn am geisio sicrhau bod Creigiau'n bentref glân a thaclus.

Enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd
Mae tri darn o waith celf a grëwyd gan ein disgyblion wedi ennill gwobrau yn Eisteddfod Sirol Celf a Chrefft yr Urdd. · Imogen (Dosb 6) - 1af am Waith Creadigol Tecstilau 2D Bl 5/6 · Heti (Dosb 4)- 1af am Waith Creadigol Tecstilau 2D Bl 3/4 · Isla (Dosb 3) - 2ail am Waith Creadigol Tecstilau2D Bl 3/4 Bydd y gwaith celf a ddaeth yn 1af yn mynd i Lanelwedd i gael eu beirniadu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd.

Heti, Isla ac Imogen - enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd.

YSBYTY PLANT ARCH NOA
Daeth Kath Fisher o Ysbyty Plant Arch Noa i un o'n gwasanaethau ysgol yn ddiweddar i siarad gyda'r disgyblion am yr ysbyty ac i ddiolch iddynt am godi £618.965 i'r elusen. Mae'r arian yn ganran o werthiant tocynnau y Cyngherddau Nadolig. Cyflwynodd Mabli, Dosbarth 3, siec i Kath. Cododd Mabli £30 yn annibynnol hefyd, trwy drefnu raffl i'w theulu a chyfrannu'r arian i Ysbyty Plant Arch Noa - caredig iawn yn wir.

Llywydd Anrhydeddus Cronfa Glyndŵr

Braint i Gronfa Glyndŵr yw cael cyhoeddi mai Cennard Davies o Dreorci yw Llywydd Anrhydeddus newydd y Gronfa. Bydd yn olynu'r Arglwydd Gwilym Prys Davies, un o sylfaenwyr y Gronfa, a fu farw'r llynedd.

Brodor o Gwm Rhondda yw Cennard Davies a derbyniodd ei addysg yn Ysgol y Porth cyn graddio o Brifysgol Abertawe. Bu'n darlithio yng Ngholeg Addysg Caerdydd ac yna yn Bennaeth Astudiaethau Ieithyddol ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae'n adnabyddus ledled Cymru fel arweinydd ac arloeswr ym maes Cymraeg i Oedolion a chyhoeddodd nifer o lyfrau ar gyfer dysgwyr. Roedd yn adnabyddus iawn fel un o diwtoriaid Catchphrase ar Radio Wales.

Yn y Rhondda, ymgyrchodd dros addysg Gymraeg am ddegawdau a bu'n Gadeirydd Cenedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin yn y saithdegau. Bu'n gynghorydd sir ac yn weithgar iawn yn ei gymuned gyda phapur bro *Y Gloran,* Cymdeithas Gymraeg Treorci a gyda chapel Hermon.

Dwedodd Catrin Stevens, Cadeirydd Cronfa Glyndŵr, am y penodiad, ''Rydym wrth ein bodd fod Cennard Davies wedi cytuno i dderbyn ein gwahoddiad i fod yn Llywydd Anrhydeddus. Mae parch aruthrol iddo ledled Cymru am ei gyfraniad amhrisiadwy i Gymru a'r Gymraeg. Bydd yn gaffaeliad mawr i'r Gronfa wrth i ni geisio 'gwneud gwahaniaeth' i addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."

Prif nod Cronfa Glyndŵr yw hyrwyddo addysg Gymraeg trwy gynnig grantiau bychain i gylchoedd meithrin, ysgolion unigol a mudiadau eraill sy'n gwneud gwaith i ddatblygu addysg Gymraeg. Gellir gweld manylion llawn ar y wefan - http://www.cronfaglyndwr.cymru/.

Mabli'n cyflwyno siec i Kath o Ysbyty Plant Arch Noa.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Mai 2018:
6 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion
13 - Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
20 - Oedfa dan ofal Emlyn Davies
27 - Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys

Mis Mehefin 2018:
3 - Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion
10 – Oedfa a Chwrdd Eglwys
17 - Oedfa dan ofal Huw a June Lloyd
24 - Oedfa dan ofal Geraint Rees

ooooOOOOoooo

"Mae'r gaeaf 'di bod yn hir (a gwlyb)" ydi dechrau amryw sgwrs ers tro byd, a'r dyheu am weld y gwanwyn yn cyrraedd yn amlwg ar wyneb ac ystum llawer ohonom.

"*Mi wellaf pan ddaw'r gwanwyn;*
Bu'r gaeaf 'ma'n un mor hir"
["Gwanwyn" gan T Rowland Hughes]

A phan ddaeth diwrnod neu ddau braf a heulog yng nghanol mis Ebrill, a olygai gyfle i droi mymryn ar yr ardd a thorri'r lawnt am y tro cyntaf, 'roedd 'na deimlad bod pethau ar droi.

Ond, o'r siom, wrth i mi baratoi'r nodyn yma i Tafod Elái, parhau a wna'r tywydd tymhestlog yn wynt a glaw, a hithau bron yn ddiwedd y mis erbyn hyn.

Ond mae 'na arwyddion pendant fod 'na newid ar droed -'does ond angen i ni edrych ar y cloddiau a'r meysydd o gwmpas y Garth i sylwi bod y coed yn blaguro, a phetalau lliwgar y blodau yn ymddangos, yn felyn a gwyn a glas, wedi eu cosi gan yr ychydig wres a'u cyffyrddodd ddyddiau ynghynt. Ac mae sawr y Garlleg Gwyllt a Chlychau'r Gog yn ein cofleidio wrth i'r gwynt ei daenu tuag atom yn bersawr am ddim.

Mae 'na wyn bach yn prancio ar y dolydd erbyn hyn, a'u brefu ymbiliol yng nghanol y praidd wrth iddynt alw am y fam i roi swigiad arall o'i phwrs yn eu cegau bychan.

Mae 'na adar yn paru a nythu mewn gwahanol lecynnau yn ôl eu harfer, a'u prysurdeb yr un mor ddygn a phob blwyddyn yn rhywbeth i wir ryfeddu ato. Brigyn yn y pig, mwsogl yn cael ei gasglu o foncyffion y coed, a phryfetach a phryfaid genwair yn cael eu hela i ddigoni'r chwant bwyd sydd arnynt wedi'r holl waith caled.

Ond, o blith yr adar, os oes rhaid dewis un sy'n cynrychioli'r gwanwyn yn fwy na'r gweddill, mae'n debyg mai'r gog fyddai'r un.

Mae hanes y gog yn gyfarwydd ddigon i ni ers ein plentyndod, er mae'n siŵr fod y canlynol wedi ein blino byth ers hynny:-

"Gwyn fy myd pe medrwn hedeg
Bryn a phant a goriwaered,
Mynnwn wybod er eu gwaetha
Lle mae'r gog yn cysgu'r gaea'"

Gwn fod 'na nifer helaeth o enwau llefydd dros Gymru benbaladr yn gysylltiedig â'r gog, a byddai fy nhad yn mynd yn ol yn flynyddol i'w gynefin yn Nebo, plwyf Llanllyfni, i chwilio am yr aderyn yma, i Allt Pant'gog, yn y gobaith y byddai clywed ei deu-nod amlwg yn sicrhau lwc iddo weddill y flwyddyn.

Gwir neu beidio, mae'r hen arferiad yna yn parhau ymysg y teulu hyd heddiw, er na fu rhaid i mi fynd mor bell â hynny 'leni i glywed "cwcw" yr aderyn glaslwyd yma.

Na, nid ar y Garth ond yng nghyffiniau Coedwig Sant Gwynno, ar ysgwydd Cefn Gwyngul, uwchben Blaenllechau yn y Rhondda Fach, ar Ebrill yr 20fed y cyfarfyddais a hi, a chefais fy modloni. 'Roedd arian yn fy mhoced – gwyn fy myd!

"*Newyddion da a ddaeth i'n bro*" felly - a gallaf yn hyderus gyhoeddi bod y gwanwyn wedi'n cyrraedd!

Ond nid dyna ddiwedd y stori.

Fe wyddom fod 'na lai o'r adar yma yn ein cynefinoedd ers tro byd a'r tebygolrwydd bod eu niferoedd am barhau i ostwng yn y blynyddoedd a ddaw.

Roedd Beibl William Morgan yn dra sicr o'i bethau yn Lefiticus 11, adnod 16, pan enwodd "*A chyw yr estrys, a'r fran nos,* ***a'r gog****, a'r gwalch yn ei ryw*" ymysg y "*… rhai hyn a ffieiddiwch chwi o'r adar; na fwytewch hwynt, ffieidd-dra ydynt…*" [adnod 13].

Ond syndod a siom oedd sylweddoli fod y gog druan wedi ei hesgymuno o'n Beibl ni bellach.

Erbyn cyrraedd y Beibl Cymraeg Newydd yn 1988, a Beibl.net yn 2015, mae'r gog yn amlwg wedi hedfan (o nyth rhywun) i ebargofiant.

Ewch allan ar frys felly i chwilio amdani, cyn iddi ddiflannu'n llwyr o'n clyw!

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Apêl Pentyrch a Creigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018

Noson Fawreddog (eto) – 11 o Fai 2018

Gyda pryd bwyd 3 chwrs ac adloniant gan Footloose, sef band 80au merched Eden

I'r rheiny fynychodd y Noson Fawreddog yng Nglwb Rygbi Pentyrch fis Mai y llynedd, byddwch yn gwybod am lwyddiant y noson, a'r hwyl a gafwyd. Penderfynwyd felly trefnu ail Noson Fawreddog i gloi gweithgareddau'r Pwyllgor eleni. Unwaith eto cawn adloniant gan fand cerddoriaeth yr 80au, *Footloose*, sy'n cynnwys Non, Rachael ac Emma o'r grwp Eden ynghyd â cherddorion enwog eraill megis Myfyr Isaac. Pwy a wyr, efallai gallwn eu perswadio i ganu rhai o 'hits' Eden hefyd?!

Mae tocynnau yn brin felly cysylltwch ar frys os am gael rhai.

Lle? Y Babell Fawr ar Barc y Dwrlyn, Clwb Rygbi Pentyrch.

Pryd? 11eg o Fai 2018 (7 ar gyfer 7.30yh)

Tocynnau - £35

Ar gael gan aelodau'r pwyllgor neu drwy law Catrin ar 07803 341971 / Twitter - @ApelPC2018

Facebook - Pwyllgor Apêl Pentyrch a Creigiau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

Gwirfoddoli yn Tafwyl 2018

Mae Menter Caerdydd yn edrych i recriwtio unigolion cyfeillgar a brwdfrydig dros 18 oed i wirfoddoli yn Tafwyl eleni ar Benwythnos 30ain o Fehefin a'r 1af o Orffennaf.

Fel Diolch, cewch:
– Tocyn bwyd a diod gwerth £10 i'w gwario yn un o stondinau yr ŵyl
– Cyfle i wirfoddoli yn un o wyliau mwyaf Cymru
– Crys-T Tafwyl arbennig

Er mwyn corfrestru ewch ar ein wefan a llenwi ffurflen gwirfoddoli:
http://tafwyl.org/
neu am fwy o wybodaeth ebostiwch:
lia@mentercaerdydd.cymru

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Priodas Aur!
Llongyfarchiadau mawr Gary a Bethan Samuel - yn hwyr ond yn ddidwyll - ar ddathlu eich Priodas Aur ddechrau'r flwyddyn! Mae gennych rysait arbennig yn fan'na glei! Hanner can mlynedd ac yn dal i wenu! Ymlaen at y garreg filltir fawr nesa! Pob hapusrwydd!

Gwellhad llwyr a buan . . .
. . . Mike MacDonald a Byron Edwards. Y ddau wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar ac yn mendio gobeithio gyda gofal tyner eu gwragedd caredig.

Croeso i'r byd . . .
. . . Gruffydd Hedd! Ail fab Caryl a Mark Eldridge, (yr Eglwys Newydd) ac ail ŵyr i Delyth a Geoff Pollard. Cafodd Gruffydd ei eni ar y 29ain o Ionawr, yn pwyso 7 pwys a 12 owns - mae e'n dipyn mwy erbyn hyn ac yn hapus i chwarae hefo'i frawd mawr Osian. Llongyfarchiadau deulu bach!

Cartref newydd
Pob hapusrwydd i Cerys, Joe, Ela a Sara Emms wrth iddynt ymgartrefu ym Mharc y Coed yn eu tŷ mawr braf! Wedi symud o un pen i'r pentref i'r llall mae'r Emms ac mae'r merched wrth eu boddau yn y tŷ newydd!

Ffarwelio
Trist iawn yw nodi ein bod yn colli cefnogwraig selog a chyfrannwr parod i'r golofn hon, ond dymunwn yn dda i Marian Jones wrth iddi symud ychydig yn nes at ei theulu, i Radur. Gwnawn yn siwr y bydd yn derbyn y *Tafod* yn ei chartref newydd. Pob hwyl hefo'r mudo!

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Sue a Lucy Bullock. Bu farw Dave, gŵr a thad annwyl a pharchus, ddechrau mis Ebrill wedi cystudd hir ac anodd. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Eglwys Gatholig ym Meisgyn.

Croeso, croeso, croeso cynnes iawn i'r Cymry newydd . . .
. . . i Dr Aled Davies a Sara a'r bechgyn Elis - 5 oed a Steffan - 3 oed a'r newydd ddyfodiad pan ddaw yn yr haf! Braf iawn eich cael yma i Creigiau! Pob hapusrwydd yn eich cartref newydd hyfryd ym Mharc Castell y Mynach. Meddyg teulu yn Nhonypandy yw Aled ac ymgynghorydd ym myd busnes yw Sara - pan na fydd ei dwylo'n llawn hefo'r plantos! Creigiau ar ei hennill a Threganna ar ei cholled!
. . . i Gwerfyl Thomas sy'n brysur ymgartrefu yn ei byngalo braf ym Mharc y Coed. Symudodd Gwerfyl yma o Ben-y-bont, via Efail Isaf er mwyn bod ychydig yn nes at Menna, Aled a Geraint. Cae Coch fydd enw'r cartref er mwyn cynnal y cysylltiad rhyngddi hi â'i gwreiddiau yn y gogledd - er taw merch o'r Rhondda yw hi yn enedigol, o bentre Tŷ Newydd. Croeso Gwerfyl - bydd digon o weithgareddau yma i'ch cadw'n brysur!

Marathon man!
Llongyfarchiadau mawr Wyn Jones - a phob un athletwr dewr arall a fentrodd i wres dinas Llundain ddydd Sul, Ebrill yr 22ain i redeg a chwblhau Marathon 2018! Anhygoel! Roedd Wyn yn codi arian tuag at elusen Hosbis y Ddinas (City Hospice) ac mae'r gronfa yn dal i dderbyn cyfraniadau trwy VirginMoneyGiving - Wyn Jones, os carech chwyddo'r coffrau. Yn y llun ar tudalen 4 fe welwch Wyn - â gwên lydan ar ei wyneb gyda Efa a Llew sy'n hynod falch o'u tad. Da iawn chi!

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Perchennog Newydd
Ers dechrau mis Ebrill mae'r hen siop Spar o dan faner newydd - Premier. Croeso mawr i Vic Sing y perchennog newydd. Dymunwn yn dda iddo a gobeithio hefyd y bydd yn llwyddiannus yn ei gais i ail agor Swyddfa Bost yn y siop.

Acapela

Llongyfarchiadau i Hywel Wigley a'i dîm wrth i Acapela ennill y wobr am y Lleoliad Annibynnol Gorau yn noson Gobrwyon Cerdd Caerdydd. Mae'r wobr yn goron i flwyddyn brysur gyda dros 100 o ddigwyddiadau, gwell darpariaeth bar a ffwrwm pizza. Mae offer sain newydd ac acoustics arbennig y capel wedi denu nifer o sêr i recordio yno yn cynnwys Bryn Terfel, Paul Potts, Côrdydd a llawer mwy.

Marathon
Llongyfarchiadau arbennig i Awen Penri, gynt o Pantbach, ar gwblhau Marathon Llundain a chasglu swm anrhydeddus iawn i Ymchwil Alzheimer. (Llun tudalen 4)

Pen-blwydd priodas hapus!
Llongyfarchiadau i Wynford a Meira ar ddathlu eu priodas saffir! Rastlas bach a mawr! x

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Siân Llewelyn Barnes

Merched y Wawr Tonysguboriau
Aeth criw da o'r aelodau i gael cinio yn *Lanelay Hall* ym mis Mawrth i ddathlu dydd ein nawddsant. Roedd pawb yn fodlon iawn gyda'r lleoliad a'r bwyd da.

Yng nghyfarfod mis Ebrill cafwyd hanes taith Carys Tudor i Beriw. Mae Carys yn wyres i un o'r aelodau ac yn ferch o'r ardal hon. Roedd hi wedi cael amser difyr iawn gan deithio yn eang i weld rhai o ryfeddodau'r wlad ac i ddysgu am ddiwylliant yr Incas. Bu'n treulio peth amser yn aros yng nghartref teulu oedd yn byw mewn pentref gwledig ac yn gwylio'r gwragedd wrth eu gwaith dyddiol. Diddorol iawn oedd gweld y gwau a wnaed ganddynt. Pinacl y daith oedd cerdded trywydd yr Incas i Machu Picchu. Er i Carys ddioddef yn ddrwg o salwch uchder wrth gerdded gwrthododd roi i fyny a chynnig gael ei chario ar gefn un o'r tywyswyr gan gyrraedd yn ddiogel ar ei dwy droed ei hunan. Da iawn Carys, a diolch am noson ddifyr.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Sioned Scott, merch Dennis ac Eluned, Meisgyn. Mae Sioned wedi cael ei dewis yn Arweinydd Ifanc y Flwyddyn gan *Rolls Royce*. Bydd hi'n mynd i'r Iseldiroedd yn yr hydref i gystadlu am wobr ryngwladol *BMW*.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad â Siân Davies a'r teulu, Potreeve Close, Llantrisant, ar farwolaeth ei mam. Roedd yn 101 oed. Ei gŵr oedd yr actor Islwyn Morris, sef Tush yn Pobol y Cwm flynyddoedd yn ôl. Bu Siân yn dysgu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant am flynyddoedd cyn ymddeol.

Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r ardal
Llongyfarchiadau i'r grŵp am ennill Gwobr Tîm Macmillan Cymru am 2018. Mae'r wobr hon yn cael ei rhoi am 'gyflawniad eithriadol trwy waith tîm'. Mae aelodau'r grŵp wedi adeiladu partneriaeth lwyddiannus gyda busnesau ac unigolion lleol i godi dros £120,000 mewn pedair blynedd ar gyfer Gofal Canser Macmillan. Ar hyn o bryd mae ymgyrch codi arian y grŵp yn mynd at gefnogi adeiladu Y Bwthyn, Uned Gofal Arbennig Macmillan, sy'n cael ei hadeiladu ar safle Ysbyty Frenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Bydd cinio haf y grŵp yn cael ei gynnal yn *The Vale Resort* ar 10 Mehefin (£30 y tocyn, gyda'r rhan fwyaf wedi cael eu gwerthu'n barod!) a bydd aelodau'r grŵp yn gwerthu tocynnau raffl hefyd i gyd-fynd â'r digwyddiad. Hefyd, mae'r cofrestru wedi agor ar gyfer Taith Gerdded Llantrisant ar 2 Medi. Eleni bydd dewis o daith gerdded 4 neu 8 milltir o Ganolfan Chwaraeon Llantrisant ar hyd y llwybr i Efail Isaf. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Macmillan, tudalen Gweplyfr y grŵp neu gan Eluned Davies-Scott.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 19 Mawrth cawsom ni ddarlith ddiddorol iawn gan Dr Lisa Hurt o Brifysgol Caerdydd gyda'r teitl 'Miri Mawr: Cyfraniad Cymru i Waith Ymchwil Meddygol a'r Chwyldro Data Mawr'. Epidemiolegydd yw Lisa, hynny yw un sy'n ymdrin a ystadegau iechyd a dim byd i wneud a'r croen fel mae rhai yn meddwl! Yn gyntaf soniodd Lisa am ystyr y term annelwig 'Data Mawr', nid oes iddo ddiffiniad ffurfiol, ond deallir yr ystyr fel ymdriniaeth a setiau o ddata sy'n rhy fawr i ddulliau traddodiadol o ddadansoddi.

Mae y maes iechyd yn cynhyrchu digonedd o 'ddata mawr' a rhoddodd Lisa nifer o enghreifftiau o hyn gan ddechrau gyda gwaith Archie Cochrane. Albanwr o Galashiels oedd e, ac wedi ei brofiadau yn y Rhyfel Cartref yn Sbaen ac yn yr Ail Ryfel Byd gwelodd bod diffygion yn y ffordd roedd clefydau yn cael eu trin, ac roedd yn arloeswr yn gofyn am dystiolaeth o effeithiolrwydd triniaethau. Yng Nghymru mae'n enwog am ei astudiaethau o iechyd glowyr yn y Rhondda Fach. Casglodd doreithiau o ddata am y glowyr, ac enwyd llyfrgell ar-lein o brofion meddygol ar ei ôl.

Roedd Archie Cochrane hefyd yn gysylltiedig ac astudiaeth Mintai Caerffili. Dangoswyd sut y gellir lleihau effeithiau dementia, clefyd y siwgr a strociau trwy ddilyn pump arferiad iach sef cynnal pwysau iach, bwyta'n iach, yfed llai o alcohol, stopio ysmygu a gwneud ymarfer corff.

Gorffennodd Lisa trwy sôn am astudiaethau anferth cyfredol. Un nodedig iawn yw y bas data SAIL (Secure Anonymised Information Linkage) gweler https://saildatabank.com/ sy'n cynnwys gwybodaeth feddygol wedi ei anonimeiddio ar filoedd o bobl. Mae yr adnodd hwn yn un o'r rhai pwysicaf yn y byd ac mae pencadlys y prosiect yn Abertawe. A dyma lle gallwn ni i gyd helpu: ewch i https://www.healthwisewales.gov.wales i gofrestru a rhannu eich profiadau iechyd. Gallwch gyfrannu eich data mewn ffordd ddiogel a thrwy hynny helpu meddygon a dod yn rhan o'r chwyldro 'data mawr'!

Rhys Morris

Ni fu cyfarfod ym mis Ebrill, ond byddwn yn cynnal cyfarfod olaf ein rhaglen ar Fai 21ain. Byddwn yn croesawu Dr Eleri Davies i draethu ar y testun, Wynebu'r Dyfodol Heb Wrthfiotegau. Croeso i bawb.

Ar y 14eg o Fawrth eleni bu farw'r Athro Stephen Hawking yn 76 oed. Go brin bod yr un gwyddonydd cyfoes wedi ennyn mwy o gyhoeddusrwydd trwy'r cyfryngau torfol a'r wasg na Hawking. Pam y gwyddonydd hwn? Yn sicr, mae campau gwyddonol Hawking, cosmoleg yn benodol, yn teilyngu anrhydedd; ni fu'r gymuned wyddonol ym Mhrydain a thu hwnt yn araf yn cydnabod hyn dros flynyddoedd lawer. Ond gellid dweud hynny am lawer o wyddonwyr eraill, megis Roger Penrose, cosmolegydd o fri ym Mhifysgol Rhydychen.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Hawking a Penrose? Yn syml, bu un yn holliach yn gorfforol a'r llall yn bell o hynny. Yn ddios, testun rhyfeddod ac edmygedd yw bod Hawking wedi medru cynnal ei waith gwyddonol ar lefel uchel iawn o safon, tra'n dioddef, dros hanner canmlynedd, effeithiau enbyd ei salwch. Ni fu'r cyfryngau, a felly'r cyhoedd, yn araf i wneud yn fawr o'i stori.

Gellid dadlau bod amlygiad cyhoeddus Hawking wedi dechrau yn 1988 gyda chyhoeddi ei lyfr *A Brief History of Time*. Bwriad y llyfr llwyddiannus oedd cyflwyno i leygwyr hanfodion gwyddonol y testun astrus hwn. Gwir achos y llwyddiant oedd i'r awdur gynnwys y sylw y byddai dilyn trywydd ei astudiaethau cosmolegol yn ein galluogi i 'nabod meddwl Duw' (Know the mind of God). I fod yn deg â Hawking mae ei ddatganiadau cyhoeddus am grefydd yn dangos cysondeb clodwiw, megis, Nid oes Duw, Nid oes nefoedd, Anffyddiwr wyf.

Mewn teyrnged dywedodd Martin Rees, Y Seryddwr Brenhinol, '….cafodd miliynau y profiad o estyn eu gorwelion cosmolegol trwy ei lyfrau ac yn fwy gan ei esiampl o gyrhaeddiant yn erbyn pob disgwyl…. Pe bai Hawking wedi ennill disgleirdeb tebyg mewn, dyweder, geneteg yn hytrach na chosmoleg, o bosib ni fyddai ei fuddugoliaeth o ddawn yn erbyn adfyd wedi ennill yr un sylw gan y cyhoedd ar draws y byd..'.

Neville Evans

Cydymdeimlo
Roedd Eglwys Dewi Sant, Meisgyn yn orlawn gyda nifer helaeth tu fas ar ddiwrnod hafaidd 19eg o Ebrill i wasanaeth coffa Mrs Ruth Davies, Ceulan, Meisgyn bu farw yn Hospis Y Bwthyn, Pontypridd ar 3ydd o Ebrill. Bu Ruth yn gysylltiedig â chynifer o wahanol Gymdeithasau megis Yr Eglwys, Soroptimists, Cymdeithasau Hanes Llantrisant a Hanes Teuluoedd, U3A, Cymdeithas Gymraeg Y Bontfaen, Cymdeithas Y Merlod a'r Cobiau Cymreig i enwi ond rhai. Gweinyddwyd y Gwasanaeth gan y ficer, y Parchedig Canon Viv Parkinson a fu'n ymweld â Ruth yn gyson yn ei chartref trwy gydol ei salwch hir.

Yn dilyn yr amlosgiad yn Llangrallo gwahoddwyd pawb yn ôl i Neuadd Eglwys Gatholig All Hallows am luniaeth lle dangoswyd sawl ffilm teledu o Ruth gyda merlod Ceulan a hefyd o'i phriodas a Wynne ym mis Ebrill 1961 yng Nghapel Hebron, Ton Pentre lle bu ei thadcu y Parchedig E W Davies yn weinidog am 40 mlynedd.

Estynnwn gydymdeimlad a'i gŵr Wynne (cyn Bennaeth Adran Cemeg, Athrofa Caerdydd), ei mab David Sorton (Gartholwg a Rhydfelen), ei merch Jane Sorton (Gartholwg a Llanhari) a'u teuluoedd, saith ŵyr ag wyres a'i gor-wyres yn eu galar. Hefyd i deuluoedd Ruth a Wynne, llawer ohonynt wedi teithio pellter hir i fod yn bresennol.

Casglwyd dros £1,300 er cof am Ruth tuag at Gronfa Adeiladu Uned Macmillan yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg.

Siop newydd
Mae deli bach o'r enw *The Pot and Pantry* wedi agor ar Swan Street, Llantrisant. Lle bendigedig i gael prydau parod i'w twymo adref, peis cartref a chawsiau Cymreig.

Eisteddfod yr Urdd
Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Brycheiniog a Maesyfed, yn ystod hanner tymor.

Gohebydd mis nesaf: Margaret White

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mehefin
i gyrraedd erbyn
25 Mai 2018

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Copyprint Wales
Trefforest
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Noson yng nghwmni Dr Elin Jones

Mai 9ed
yn Y Ganolfan, Efail Isaf

Gwybodaeth bellach: 02920890979

MERCHED Y WAWR
Pontypridd

10fed o Fai – Cyfarfod Blynyddol

Rhagor o fanylion:
01443 485272

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Mai 16fed

'Ffynonellau Ysbrydoliaeth' gwaith arlunio Gail Kennard

Rhagor o fanylion:
01443 223828

CLWB Y DWRLYN

Yr Ebenezers Lyn a Dylan yn hel atgofion

8yh Nos lau, 17 Mai
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
Manylion: 029 20890040

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf
01443 407570
www.menteriaith.cymru

DEWCH I GEFNOGI MIRI MAI

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn falch i gyhoeddi ein bod ni wedi ennill grant o £4,882.30 o Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd.

Mae cronfa annibynnol gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn gyfrifol am reoli'r gronfa o 1.8 miliwn y flwyddyn sefydlwyd gan y cwmni egni Swedeg Vattenfall, gweithredwr y fferm wynt. Mi fydd y gronfa mewn lle tan o leiaf 2036.

Gyda'r rhodd arbennig yma rydym yn bwriadu trefnu digwyddiad Cymraeg Cymunedol i bawb yng Nghwm Cynon – MIRI MAI.

Dyddiad MIRI MAI yw Dydd Sadwrn, 19eg o Fai. Lleoliad: Sgwâr llyfrgell Aberdâr. Trefnwyd y digwyddiad llynedd ond gyda'r buddsoddiad ychwanegol gallwn ddarpau llawer mwy!

Dywed Einir Siôn prif weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf:

"Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn falch iawn i dderbyn y grant yma ac yn ddiolchgar iawn i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd. Mi fydd yn hyfryd i drefnu'r ŵyl yma yng Nghwm Cynon lle mae hanes yr iaith Gymraeg yn amlwg a'r iaith yn sicr yn fyw yn y gymuned. Y gobaith yw gyda chefnogaeth fydd yr ŵyl yma yn tyfu bob blwyddyn"

Rydym wedi bod yn cydweithio a thrafod gyda mudiadau Cymraeg lleol, busnesau, grwpiau a phwyllgorau er mwyn trefnu digwyddiad sy'n berthnasol i'r ardal, yn ystyried syniadau pawb.

Gallwch edrych ymlaen at wledd o berfformiadau a gweithgareddau. Cyfle i fwynhau perfformiadau amrywiol, cerddoriaeth fyw, stondinau, gweithdai celf, sesiynau stori yn y llyfrgell, gweithgareddau i ddysgwyr, chwaraeon yr Urdd a llawer mwy!

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.menteriaith.cymru
Facebook: Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Trydar: @MenterIaithRhCT

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Nos lau, 10 Mai am 7.00.pm
Noson gyda'r dysgwyr a Côr yr Einion
Yn Capel y Tabernacl, Efail Isaf

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr
Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen nos Iau Mai 10fed yn Festri Capel Sardis am 7.30 p.m. Dewch i gynnig syniadau ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf. Hwyrach y bydd rhai o'r aelodau yn fodlon rhannu eu hanesion ar ôl i Dil a Menna deithio i Batagonia, Lis i Ganada ac Alaska a Jayne i China.

Yn ystod y misoedd nesa fe fydd yr aelodau yn ymweld â stiwdio'r arlunydd Anthony Evans yng Nghaerdydd ac yn mynd ar daith gerdded gyda Glyn Hughes gyda swper i ddilyn.

Llongyfarchiadau
Gwell hwyr na hwyrach! Dymuniadau gorau i Carwyn Geraint Rees ac Elinor Laidlaw ar ddyweddïo adeg y Nadolig. Daw Elinor yn wreiddiol o Langyndeyrn ac mae hi'n hyfforddi i fod yn gyfreithwraig. Mae Carwyn yn gweithio yn Swyddfa Awdit Cymru yng Nghaerdydd.

Croeso
Llongyfarchiadau i Catherine a Mathew Webb, Y Comin ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Mae pawb wrth eu bodd bod Greta Fflur wedi cyrraedd yn ddiogel.

Diwrnod i'w gofio
Mae'r teulu Francis wedi bod yn gefnogwyr tîm pêl droed Elyrch Abertawe ers blynyddoedd. Roedd Wil, mab Emyr Wyn yn fasgot i'r tîm ar Ebrill 14eg cyn y gêm yn erbyn Everton. Cerddodd allan i'r maes gyda Martin Alsson, ei hoff chwaraewr. Ar ôl y gem arwyddodd Martin enw Wil ar ei grys a'i roi yn anrheg iddo. Roedd Wil yn gyffrous iawn !

Taith sgïo Ysgol Gyfun Garth Olwg i Awstria



Er bod y daith sgïo i Zell am See, Awstria yn 24 awr ar fws, roedd digon i'n diddanu fel siarad, gwylio Netflix a'r mwyafrif o amser – cysgu! Roedd sgïo yn brofiad anhygoel a dysgais i lawer, o sgïo i sut i stopio heb gwympo mewn i bobl! Er ar ddechrau'r daith doeddwn i byth wedi sgïo o'r blaen, erbyn y diwrnod olaf es i lawr ar y llethr coch. Roedd Awstria mor hyfryd yn ogystal â'r bobl. Roedd ein hyfforddwr ni yn galw ein grŵp yn "strong, independant women" Am ysbrydoledig! Wrth gwrs byddech yn meddwl mai ond sgïo bydden ni wedi gwneud yr holl amser ond aethom ni i nofio, i ddisgo ac am dro rownd y dref a noson draddodiadol Awstria. Cwrddais â llawer o bobl newydd a chael profiad bythgofiadwy.

Gan Freya Williams, Blwyddyn 10.

Clwb Llyfrau
Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont am 8 o'r gloch nos Fawrth, Mai 15fed pan fyddwn yn trafod nifer o gyfrolau sef 'Clasuron Modern Saesneg'.(Hunan ddewisiad)
Cyfrolau Cymraeg sy dan sylw ym mis Mehefin pan fyddwn yn trafod 'Clasuron Cymraeg o'r 20fed Ganrif' nos Fawrth Mehefin 19eg.

Parti Ponty
Mae tref Pontypridd yn edrych ymlaen unwaith eto i groesawu Parti Ponty ond mas ar y stryd fydd popeth yn digwydd eleni. Dyma gyfle gwych i blant ein hysgolion Cymraeg a'u rhieni i ymuno yn yr holl weithgareddau fydd Parti Ponty yn cynnig. Sicrhewch fod eich ysgol chi wedi cytuno i gymryd rhan yn yr Ŵyl hon. Yn ôl pob son mae gwledd o adloniant yn ein disgwyl ar 3 llwyfan yng nghanol y dre.

Dathlu
Llongyfarchiadau i Gareth Miles , Graigwen Parc, Graigwen sydd wedi dathlu pen blwydd nodedig yn ddiweddar.

Hefyd cyfarchion pen blwydd i Lis Morgan Jones, Maes y Deri, Graigwen wrth iddi gyrraedd oed yr addewid!

Ar y sgrin fach
Gwelwyd nifer o gyn drigolion Pontypridd ar S4C yn ddiweddar. Roedd Dafydd Duggan, sy bellach yn y coleg yng Nghaerdydd a Rhodri Francis, Aberystwyth yn cystadlu yn y cwis 'Celwydd Noeth'.Roedd Anna Huws ac Anthony Evans ar raglen Dechrau Canu Dechrau Canmol.

Beirniadu
Dewiswyd Cai Morgan, cyn ddisgybl Evan James a Rhydfelen yn feirniad ar gyfer cystadleuaeth ffotograffiaeth y Gwanwyn rhaglenni Pnawn Da a Heno. Pob lwc!

Gwobrwyo
Yn Neuadd Arddangos Aberdeen mis diwetha' cynhaliwyd seremoni 'Gwobrau Offshore Europe'. Enillwyd y wobr Datblygedd Technoleg gan Global Technologies, y Pil, Penybont. Emyr Wyn Francis, gynt o Graigwen, yw prif weithredwr y cwmni. Mae'r cwmni yn arbenigo mewn technoleg egni ac yn cyflogi 65 o bobl. Cyflwynwyd y wobr gan Rachel Riley sy'n un o gyflwynwyr Countdown ar Sianel 4. Llongyfarchiadau!

Ysgol Dolau
(Lluniau tudalen 13)

Gŵyl Hetiau'r Pasg
Aeth y plant derbyn i glwb rygbi Llanharan ar y 27ain o Fawrth i ddangos eu hetiau Pasg. Daethon nhw nôl i'r ysgol ar ôl hynny i'w dangos i weddill y cyfnod sylfaen. Da iawn rhieni a phlant, roedd yr hetiau yn edrych yn wych!

Eisteddfod Sir yr Urdd
Eisteddfod Sir lwyddiannus iawn y tymor hwn! Ddydd Gwener y 23ain o Fawrth, cystadlodd y disgyblion ar lwyfan Pafiliwn Porthcawl yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Cawson ni ddiwrnod hyfryd a pherfformiodd y plant i gyd yn wych. O ganlyniad i'r diwrnod, fe fydd Yola Qwok, Emily Buttle, Anya Grunewald a'r tîm dawns stryd yn symud ymlaen i gystadlu yn yr eisteddfod genedlaethol. Perfformiodd Ameilia Evans, Freya Smith a'r Tîm Dawns Greadigol yn arbennig o dda a daethant yn 2ail yn eu cystadlaethau.

Tymblo
Da iawn i Ioan, Ieuan, Ryan, Paige, Mia, Lacey ac Anya am wneud yn arbennig o dda yn cynrychioli Ysgolion Morgannwg Ganol mewn cystadleuaeth ar yr 28ain o Fawrth.

NSPCC
Ddydd Iau, Mawrth 15fed, cawson ni wasanaeth teimladwy iawn gyda'r NSPCC. Trafododd y disgyblion faterion yn ymwneud â siarad a chadw'n ddiogel. Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn ddigon ffodus i fod yn rhan o weithdai yn trafod pwysigrwydd holi am gefnogaeth a chadw'n ddiogel ar ôl y gwasanaeth.

Rygbi
Ddydd Gwener, Mawrth 23ain, mynychodd y tîm rygbi rownd terfynol cystadleuaeth rygbi yng Nghlwb Rygbi Dynfant. Perfformiodd Dolau yn wych, gan ennill bob un o'i gemau a rhoi un cais yn unig i ffwrdd yn y broses. Cyrhaeddodd y tîm y rownd gynderfynol lle'r oedd y sgôr yn gyfartal. Buon nhw'n anlwcus tu hwnt i golli allan i gais euraidd yn amser ychwanegol. Serch hynny, mae'r bechgyn yn falch iawn o'u hymdrechion.

Traws Gwlad
Ar y 24ain o Fawrth, bu'r tîm traws gwlad yn cystadlu yn Ysgol Uwchradd Brynteg. Roedd hi'n gwrs anodd iawn gyda llawer o fwd! Da iawn i bawb a fynychodd. Mae'r gystadleuaeth nesaf yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen ar yr 21ain o Ebrill.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Cadwyn Castellau ar gyfer 'Man Engine' Cymru. 11.4..18

Trip i Sw Bryste Dosbarth Y Taf A Dosbarth Dewi Sant. Diwrnod i gofio! 20.4.18

LLANILLTUD FAERDREF

Gohebydd Lleol:

Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys
Fe agorodd Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys ei ddrysau ym mis Ebrill yn ei gartref newydd yng Nghanolfan Hamdden Llanilltud Faerdref. Roedd y cylch yn arfer defnyddio Neuadd y Plwyf y pentref. Fe wnaeth Cyngor Rhondda Cynon Taf addasu rhan o'r ganolfan hamdden yn arbennig i gylch meithrin ac mae'r lle yn un penodol i'r cylch. Mae'r cylch ar agor 8.30 - 3.30 yn ystod tymor yr ysgol ond yn gobeithio ehangu oriau. Am fwy o wybodaeth gallwch gysylltu ag Angharad sef yr arweinydd ar pentre@camaucyntaf.co.uk

Blwyddyn 3 yn mwynhau sesiynau tenis, diolch i Rachel o Chwaraeon yr Urdd

Perfformiadau ardderchog gan ddisgyblion ysgol Castellau heddiw. Diwrnod braf i'r tŵrnament pêl-droed ar 19 Ebrill.

Ymdrech arbennig gan ferched Ysgol Castellau yn cystadlu yn y Bencampwriaeth Cenedlaethol Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd ar 26 Ebrill.

Ysgol Llantrisant

Wythnos ffitrwydd
Nôl ar ddiwedd tymor y Gwanwyn, fe gynhaliwyd Wythnos Ffitrwydd yn yr ysgol, pan oedd cyfle i'r holl ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai chwaraeon ymarferol yn ogystal â cherdded milltir y dydd. Yn ystod yr wythnos hefyd, fe ail-lansiwyd ein siop ffrwythau ac fe alwodd nifer o ymwelwyr yn yr ysgol er mwyn trafod eu gwaith ym myd iechyd a ffitrwydd.

Ymweliadau Blwyddyn 6
Fe gafodd disgyblion Blwyddyn 6 ddiwrnod cyffrous iawn ar Fawrth yr 28ain! Yn y bore, fe fuon nhw ar ymweliad ag Eglwys Bethel ym Mhontyclun er mwyn cymryd rhan mewn gweithdai'n seiliedig ar stori'r Pasg ac yna, yn y prynhawn fe aethon nhw i Glwb Rygbi Pontyclun er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy ar y planedau a'u cysylltiad â chwedloniaeth.

Gweithdai drama
Ar Fawrth y 26ain cynhaliwyd gweithdai drama ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 4 i 6. Roedd y disgyblion wrth eu boddau a diolch i staff clwb drama Canolfan Garth Olwg am alw draw – yn enwedig Jane (Collier bryd hynny) oedd yn arfer bod yn ddisgybl yn YGGG Llantrisant!

RNLI
Ddiwedd tymor diwethaf, fe gafodd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 gyfle i gwrdd ag achubwyr bywyd o'r RNLI a ddaeth i drafod peryglon lan y môr gyda'r disgyblion a'u cynghori beth i'w wneud mewn argyfwng.

Llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir
Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir cyn gwyliau'r Pasg, ond llongyfarchiadau arbennig i'r canlynol, fydd yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ar ddiwedd mis Mai: Y Côr, Y Parti Unsain, Y Parti Deulais, Yr Ymgom a Lena Evans yn y gystadleuaeth Unawd Alaw Werin dan 12 oed. Pob lwc i chi gyd a diolch i'r athrawon fu wrthi'n brysur yn hyfforddi'r plant.

Ymweliad Mr Phormula

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol yn ystod ymweliad Mr Phormula'n ddiweddar. Cafodd y disgyblion amser gwych yn gwrando ac yn perfformio gyda'n hymwelydd talentog. Mae pawb yn edrych mlaen yn awr at gael un o ganeuon Mr Phormula yn drac yr wythnos!

Dathliadau'r Pasg ac ymwelwyr arbennig
Ar ddiwrnod ola tymor y Gwanwyn cynhaliwyd gwasanaeth Pasg arbennig dan ofal y Parchedig Steve Bennett pan gyflwynodd stori'r Mab Afradlon i'r disgyblion. Yn y prynhawn hefyd cynhaliwyd gorymdaith hetiau Pasg yn y Cyfnod Sylfaen ac fe ddaeth wyn bach newyddanedig i ymweld a phawb yn eu dosbarthiadau!

Ysgol Dolau (tudalen 12)

Dawnswyr yn Eisteddfod Sir yr Urdd

Gŵyl Hetiau'r Pasg

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Ymlaen i'r gêm derfynol
Llongyfarchiadau mawr i ferched blynyddoedd 8, 9 a 10 am guro Ysgol Stanwell 4-2 yn rownd gynderfynol pêl-droed Cwpan Cymru o dan 15. Sgoriwyd dwy gôl gan Lara Watts, un gan Eliza Collie ac un gan Katie Harding. Bydd y tîm nawr yn mynd ymlaen i'r gêm derfynol yng Nghroesoswallt.

Rygbi
Llongyfarchiadau i dîm Ysgolion Pontypridd o dan 15 am guro Ysgolion Caerdydd ym Mharc yr Arfau yn rownd gynderfynol y Dewar Shield. Byddant yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol yn Stadiwm y Principality ar y 1af o Fai yn erbyn Ysgolion Llanelli! Y chwaraewyr o Garth Olwg yw Cole Morgan, Josh Williams, Ben Burnell, Wil Huggins, Dylan John, Owen Ratcliffe a Cael Clarke.
Llongyfarchiadau hefyd i dîm rygbi 7 bob ochr blwyddyn 9 am gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Trecelyn.

Eisteddfod yr Urdd

Cafwyd llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Sir yr Urdd eleni eto. Dyma'r canlyniadau:
Kai Easter – 1af dawnsio disgo unigol. Tom Kemp – 2il Monolog. Elen Griffiths – 1af unawd telyn a'r unawd chwythbrennau. Osian Gruffydd – 1af unawd ffidl. Curig Williams – 2il unawd bechgyn hŷn. Siôn Elfyn – 3ydd unawd bechgyn hŷn. Ella Iles – 1af unawd merched hŷn. Beca Roberts – 3ydd unawd merched iau. Gruff Roberts – 1af llefaru unigol hŷn. Nye Codd – 2il llefaru unigol hŷn. Greta a Caitlyn – 3ydd deuawd iau. Greta Williams – 2il llefaru iau.
Cyflwyniad dramatig hŷn – 1af. Dawnsio disgo iau – 1af. Côr SATB – 2il. Parti llefaru hŷn – 1af. Parti llefaru iau – 1af. Parti merched iau – 1af. Côr S.A – 3ydd. Ymgom hŷn – 1af. Ymgom iau – 1af.
Dymuniadau da i bawb fydd yn cynrychioli'r ysgol a'r sir yn Llanelwedd. Pob lwc!

Seremoni Wobrwyo 2018.

Ddydd Mercher, 28ain o Fawrth, cynhaliwyd seremoni wobrwyo i gyflwyno tystysgrifau arholiadau Lefel Mynediad, TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â gwobrwyon eraill, i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg. Braf oedd cael croesawu ein gwestai, Mr Vaughan Roderick (un o brif newyddiadurwyr gwleidyddol Cymreig a chyn-ddisgybl) i gyflwyno'r tystysgrifau. Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl a dderbyniodd dystysgrif neu wobr arbennig ar y noson.
Dyma'r buddugwyr:
Gwobr CA3 - Anwen Davies, Ffion Devonald-Jones, Huw Griffiths, Brianne Jones, Nia Osbourne, Kate Phillips
Gwobr CA4 - Ieuan Davies, Bethan Horscroft-Preest, Jake Spencer, Aled Williams.
Gwobr CA5 - Iwan Cavil, Gruffydd Lloyd, Robbie Mears, Jac Smith, Daniel Thomas.
Gwobr Mr Dafydd Jones - Bailey Roberts
Gwobr y Delyn - Nia Catrin Hughes
Gwobr Lily Richards (Cerddoriaeth) - Ethan Williams.
Gwobr Ddrama - Tom Kemp
Gwobr Chwaraeon - Gruffydd Lloyd
Gwobr Daniel Farr - Megan Bowen
Gwobr yr Athrawon - Daniel Thomas
Gwobr Gwenan Brooks - Iwan Cavill
Gwobr Celf Laura Hughes - Millie Newman



EESW
Ar y 19eg o Ebrill teithiodd tîm Ffiseg Garth Olwg i Barc y Sgarlets yn Llanelli. Roedd y tîm wedi gweithio gyda chwmni lleol, **FSG Tool & Die**, i ddatrys problem mesur hyd darn o offer drilio yn gyflym er mwyn lleihau'r amser roedd y peiriannau drilio yn segur rhwng tasgau. Roedd ei datrysiad yn cynnwys offer mesur uwchsain oedd yn arddangos yr hyd mewn milimetrau ar sgrin fach ddigidol. Cyflwynodd y tîm ei datrysiad yn "The Big Bang Fair" De Cymru i banel o feirniaid; ond yn fwy heriol oedd ateb cwestiynau disgyblion blwyddyn 8 a oedd hefyd ar ymweliad i'r Ffair! Aelodau'r tîm oedd; Gethin Griffiths, Anya Hayes a Jake Spencer.

Y Big Bang
Yn ddiweddar, aethon ni i'r ffair Big Bang ym Mharc y Scarlets. Mwynheais ddysgu pethau newydd gwyddonol, mathemategol a thechnolegol. Roedd gennym ni'r cyfle i ofyn i weithwyr cwmniau lleol gwestiynau am eu gwaith a rhoddodd hyn syniadau i ni



am y dyfodol. Gwelais lawer o brosiectau'r chweched dosbarth yr oedd wedi ein diddori fel robot yn defnyddio ipad. Dysgais am sawl agwedd wyddonol wahanol fel y car cyflymaf erioed a phaneli solar sydd yn rhoi trydan 24/7. Ar y cyfan, roedd y profiad yn un pleserus iawn.

Gan Abigail Protheroe
ac Amelia Hughes, Blwyddyn 8.

Ysgol Llanhari

Llongyfarchiadau Emily!



Rydym yn hynod o falch yn Ysgol Llanhari o lwyddiant Emily Thomas a fu'n aelod o dîm Gymnasteg Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn ystod y Pasg. Llwyddodd hi a'i thîm i ddod yn bedwerydd yn y gystadleuaeth i dimau, a daeth Emily yn chweched yn cystadlu fel unigolyn ar y llawr. Derbyniodd ganmoliaeth arbennig am ei pherfformiadau gydag un o sylwebwyr y BBC yn ei disgrifio fel "pocket rocket from Wales"! Bu'n brofiad anhygoel iddi ac edrychwn ymlaen at glywed mwy am ei hanes ar yr arfordir Aur. Emily sydd ynghanol y llun.

Taith Sgïo 2018

Treuliwyd wythnos wych yn sgïo yn ystod y Pasg yn Awstria. Roedd yr amodau a'r tywydd yn rhagorol ac fe fwynhaodd y disgyblion y sgïo a'r holl weithgareddau nos yn fawr. Rhaid canmol eu hymddygiad a'u hymroddiad i ddysgu sgil newydd. Diolch i'r holl staff a deithiodd gyda'r disgyblion i Awstria ac i Mr Steve Wilshaw am drefnu ac arwain.

Llongyfarchiadau Mrs Webb!

Hyfryd oedd derbyn y newyddion ar ddechrau gwyliau'r Pasg bod Mrs Cath Webb, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol, sydd â gofal yr adran gynradd, a'i gwr Mathew, wedi cael merch fach. Croeso mawr i Greta Fflur! Bydd Mrs Ffion Richards yn Bennaeth Cynorthwyol yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Webb a dymunwn yn dda iddi hi yn y gwaith.

Chwilio am y Gryffalo

Ar ddiwrnod hyfryd o fis Ebrill aeth disgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn i fynydd Caerffili i chwilio am y Gryffalo! Cafwyd amser arbennig ac roeddent wrth eu bodd wrth gwrs yn darganfod y Gryffalo ar ddiwedd y dydd cyn cyrraedd nôl yn flinedig iawn i Lanhari.

Cerddorfa Ieuenctid Uwch Rhondda Cynon Taf

Yn ystod y tymor diwethaf bu nifer o'n disgyblion talentog yn cymryd rhan mewn cyngherddau cerddorfaol o safon uchel. Llongyfarchiadau i'r canlynol : Elin James a Bethany Lindley (soddgrwth) Lewis James a Nia Lindley (Fiola), Dylan John (trwmped) a Yasmin Richards (ffliwt)

Llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd

Ar ddiwedd Tymor y Pasg, cynhaliwyd yr Eisteddfod Sir uwchradd yn Neuadd y Dref, Maesteg. Bu'n ddiwrnod brwd o gystadlu a dathlwyd sawl llwyddiant. Dymuniadau gorau i'r côr iau, y côr hŷn, y dawnswyr

creadigol, Alys, Elis, Celyn L, Celyn H, Lewis ac Elin wrth iddynt gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddiwedd Mai. Maes y Sioe yn Llanelwedd amdani!

Gweithdy Creadigol gyda'r Beirdd

Teithiodd criw o ddisgyblion mwy abl a thalentog CA3 i Aberystwyth yn ddiweddar i gymryd rhan mewn digwyddiad arbennig iawn a drefnwyd gan Ŵyl y Gelli, sef y Gynhadledd Sgriblwyr. Bu'n brofiad arbennig i'r disgyblion ac yn ysbrydoliaeth! Mwynhawyd gweithdai gan lenorion megis Rufus Massa, Eurig Salisbury, Jon Gower,

Aneirin Karadog a Hywel Griffiths. Mae'n amlwg bod beirdd hyd yn oed yn hoff o hunluniau!

Neges Ewyllys Da yr Urdd

Rydym yn edrych ymlaen at ddarllen a chlywed Neges Ewyllys Da yr Urdd eleni. Disgyblion o ranbarth Morgannwg Ganol sydd wedi llunio y neges eleni ac fe recordiwyd rhai ohonynt yn ei darllen ar ddechrau Tymor y Pasg yn yr ysgol.

Ffit Cymru

Rydym yn mwynhau dilyn hynt a helynt Leon, cyn-ddisgybl a swyddog yr Urdd yn yr ysgol ar Ffit Cymru ar S4C ar hyn o bryd ac yn dymuno'n dda iddo. Roedd disgyblion yr adran gynradd wrth eu bodd yn gweld eu hunain ar y teledu wrth i Leon redeg milltir y dydd gyda nhw. Pob lwc iti Leon!

Dreigiau Doeth

Yn dilyn cyfnod llwyddiannus iawn yn arwain disgyblion yr adran gynradd at y wobr efydd, enwebwyd criw newydd o ddreigiau doeth y tymor hwn. Dyma nhw yn eu cyfarfod cyntaf. Ennill y wobr arian yw'r nod nesaf!

Diwrnod Sports Relief

Cynhaliwyd amryw o weithgareddau i godi arian i elusen Sports Relef ar ddiwedd mis Mawrth. Roedd y disgyblion cynradd wrth eu bodd yn profi nifer o chwaraeon cyfarwydd a newydd tra mai cyfraniad disgyblion CA3 i'r ymdrech ysgol gyfan oedd cyfri camau wrth wneud lap ar ôl lap o'r cae graean coch.

Clwb Rygbi Pontypridd yn anelu'n uchel

Wrth i'r tymor rygbi fynd mewn i'w fis olaf, y nod syml i Glwb Rygbi Pontypridd yw diweddu yn y safle uchaf posib yn Uwchadran y Principality, a hynny ymysg y tri neu bedwar clwb ar y brig.

Wrth i fis Ebrill gilio o'r neilltu, wedi cyfres o fuddugoliaethau addawol, roedd Ponty wedi codi i'r trydydd safle yn y tabl, gyda Cwins Caerfyrddin a Merthyr yn unig uwch eu pennau.

Mae hynny'n sefyllfa y byddai y mwyafrif o gefnogwyr a swyddogion y clwb wedi ei dderbyn ar ddechrau tymor o gyfnewid, gyda thîm hyfforddi newydd wrth y llyw a nifer o chwaraewyr ifanc di-brofiad wedi eu hychwanegu at y garfan.

Mae Ponty wedi brwydro'n galed i sicrhau buddugoliaethau gwerthfawr yn ystod mis Ebrill, a hynny wedi rhoi'r momentwm i'w codi yn agos at frig y tabl.

Wedi colled siomedig adref yn erbyn Llanymddyfri ddiwedd mis Mawrth, a hynny o flaen camerau S4C, cafwyd pump buddugoliaeth o'r bron, tair o'r rhai hynny oddi cartref, yn erbyn Abertawe, Aberafan a Bargoed.

Dwy gêm allai ddiffinio tymor Pontypridd oedd y rhai ar Heol Sardis yn erbyn Gogledd Cymru ar 7fed o Ebrill ac yn erbyn Caerfyrddin ar y 28ain.

Wedi brwydr ddigyfaddawd, curwyd y 'gogs' o 25pt i 20, gyda'r farn gyffredinol mai dyma un o berfformiadau gorau'r tymor cyn belled.

Daeth Caerfyrddin i Heol Sardis yn llawn hyder, wedi curo Merthyr ar eu tomen eu hunain yr wythnos cynt. Er nad oedd y gêm o'r safon uchaf, wedi gornest gyffrous a chorfforol, Ponty oedd eto'n fuddugol o 24pt i 20, a hynny gyda charfan oedd wedi ei gwanhau yn sylweddol oherwydd anafiadau a galwadau rhanbarthol a rhyngwladol dan 20.

Yn ystod pythefnos ola'r tymor mae Ponty yn croesawu yr hen elyn Caerdydd i'r 'House of Pain' ar 5ed o Fai, yna'n chwarae oddi cartref yn erbyn Casnewydd a Cross Keys. Tair gêm anodd, ond yn rhoi'r cyfle i Bontypridd brofi eu hunain fel un o'r timau gorau yn yr Uwchadran y tymor hwn.

Pontypridd yn herio Cwins Caerfyrddin

I ddilyn hynt a helynt CR Pontypridd galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net neu ar y cyfryngau cymdeithasol - facebook, twitter ac instagram. Mae digon o gyffro i'w gael, a chroeso cynnes i bawb!